



# CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 07.03.2018

## Eisteddfod Ysgol Gyfun Bro Myrddin 2018

Ar ddydd Iau Chwefror y 15fed 2018, cynhaliwyd eisteddfod flynyddol yr ysgol. Eto eleni cafwyd diwrnod llawn hwyl a chystadlu brwd. Y grwpiau offerynnol wnaeth ddechrau'r steddod gyda grŵp llys Llwydiarth yn dod yn gyntaf, Peniarth yn ail, yn drydydd llys Hergest ac yn bedwerydd llys Hengwrt. Ail gystadleuaeth y dydd oedd unawd lleisiol BI 10-13 gydag Esyllt Thomas o lys Hengwrt yn cipio'r wobr gyntaf, yn ail roedd Hannah Richards, llys Llwydiarth ac yn gydradd drydydd roedd Mared Owen o lys Peniarth a Lowri Richardson o lys Hergest. Y gystadleuaeth nesaf oedd meimio i



gerddoriaeth ac enillwyd y gystadleuaeth gan lys Peniarth, Hergest yn ail, yn drydydd llys Llwydiarth ac yn bedwerydd llys Hergest.

Gyda chystadleuaeth y grwpiau lleisiol, Peniarth a gyrhaeddodd y brig gyda Hergest yn ail, Llwydiarth yn drydydd a Hengwrt yn bedwerydd. Yna cawsom berfformiadau doniol a digri yng nghystadleuaeth y sgets. Llys Hergest oedd y llys buddugol yn ail oedd Hengwrt, yn drydydd llys Peniarth ac yn bedwerydd llys Llwydiarth. Cafwyd gwledd wrth weld y pedwar llys yn perfformio dawns werin agored, y perfformiad gorau oedd llys Hergest yna llys Llwydiarth, llys Peniarth a Hengwrt. Nesaf, cafwyd yr unawd lleisiol iau a pherfformiadau hyfryd gan bob llys. Hannah-John o lys Hergest oedd yn fuddugol gyda Siwan Jones o lys

Peniarth yn ail, Andreas Richards o Hengwrt yn drydydd a Sioned Cray o lys Llwydiarth yn bedwerydd.

Aethom ymlaen wedyn i gystadleuaeth olaf y bore cyn y seremoni coroni a chadeirio sef y Stori a sain. Yn wobr gyntaf oedd llys Llwydiarth yn ail llys Peniarth, yn drydydd llys Hengwrt ac yn bedwerydd llys Hergest. I gloi'r bore cafwyd seremoni'r coroni a chadeirio. Enillydd y gadair

Gymraeg oedd Lois Campbell o lys Llwydiarth ac enillydd y gadair Saesneg oedd Laurie Thomas hefyd o lys Llwydiarth. Enillwyd y goron Gymraeg gan Briall Dyfri o lys Llwydiarth ac enillwyd y goron Saesneg gan Carina Sidhu o lys Peniarth.

I ddechrau cystadlu'r prynhawn cawsom y cyfle i wrando ar y grwpiau pop gyda Llwydiarth yn dod yn gyntaf, yna Hergest, Peniarth, a Hengwrt. I ddilyn oedd cyfle i weld grwpiau dawnsio disgo iau anhygoel yr ysgol ac yn ennill y gystadleuaeth oedd Ilys Hergest, yn ail Ilys Peniarth, yn drydydd Ilys Hengwrt ac yn bedwerydd Ilys Llwydiarth. Aethom ymlaen wedyn i wyllo grwpiau dawnsio disgo B110-13. Yn ennill y gystadleuaeth roedd Llwydiarth, yn ail Hergest, yn drydydd Hengwrt ac yn bedwerydd Peniarth.

Cyn gorffen y dydd fe gawsom glywed corau'r llysoedd yn canu Mistar Duw. Enillwyr cystadleuaeth y côr eleni oedd Ilys Hengwrt. Enillwyd thlws y dawnsio gwerin gan lys Hergest gyda thlws cystadlaethau'r llwyfan yn cael ei hennill gan lys Llwydiarth a thlws y gwaith cartref gan lys Peniarth. Ond enillwyr y steddod eleni yn y drefn ganlynol oedd Peniarth gyda 1,049 o bwyntiau, Llwydiarth gyda 945 o bwyntiau, Hergest gyda 883 o bwyntiau a Hengwrt gyda 680 o bwyntiau. Carem ddiolch yn ddiffuant i'r ddau feirniad sef Mr Geraint Hughes a Mrs Siw Hughes am eu gwaith caled a hefyd i'r capteiniaid Ilys a phawb a fu'n glwm gyda'r ymarferion.

## Cystadleuaeth Adeiladwaith

Ar 29ain o Ionawr cynhaliwyd cystadleuaethau mewn crefftiau adeiladwaith gan gynnwys bricwaith, gwaith coed, plwmio, paentio, gwaith trydanol, plastro, gwaith asiedydd a hefyd adran i ddisgyblion ysgol 16 neu iau. Yn cystadlu roedd lluo o golegau ac ysgolion o Geredigion, Penfro, Castell Nedd, Gŵyr a Sir Gâr. Yn yr adran 16 ac iau, dewiswyd dau aelod o Fro Myrddin, sef Kayleigh Jones a Mason Evans fel rhan o dim Coleg Sir Gâr ac mewn cystadleuaeth agos iawn gyda deuddeg cystadluydd, dyfarnwyd Mason Evans yn drydydd gan dderbyn tystysgrif a thlws gwydr wedi ei ysgythru.



Kayleigh Jones a Mason Evans

Braf oedd gweld dau o gyn-ddisgyblion Bro Myrddin yn cystadlu sef Osian Davies a ddaeth i'r brig yn yr adran gwaith asiedydd, ac Owen Phillips yn ennill yn yr adran gwaith coed uwch. Llongyfarchiadau i bawb.

## Disgyblion blwyddyn 9

Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 9 y Prince's Trust yn gwneud tasg i ymwneud â Deunydd a Symudiad. Gwnaeth y 6 disgybl ddatrys problemau cyllid a deunydd prin i greu strwythur at bwrpas penodol. Roedd pawb yn cydweithio ac yn gweithio'n dda fel tîm.

## Mamma Mia! - Taith yr Adran Gerdd i Lundain

Ers blynnyddoedd bellach, mae'r Adran Gerdd wedi bod yn trefnu taith i ddisgyblion yr ysgol i'r West End i fwynhau bwrlwm dawnsio a chanu'r theatr. Eleni, ar ddydd Iau'r 1af o Chwefror, daeth yr amser unwaith eto i dros 150 o ddisgyblion deithio i Lundain i wyluo sioe gerdd go arbennig: y tro hwn, Mamma Mia, yn seiliedig wrth gwrs ar ganeuon byd-enwog ABBA. Am hanner awr wedi chwech, gadawodd dri bws *Halfords* yn llawn disgyblion blinedig, ond cyffrous. Ymhen awr, roedd alawon rhai o ganeuon enwocaf ABBA i'w clywed ar bob un bws, ac roedd hi'n amlwg fod pawb ar bigau'r drain i weld y sioe gerdd hon yn fyw ar lwyfan theatr *Novello*. Wedi cyrraedd *Covent Garden*, cawsom gyfle i grwydro o amgylch siopau a bwytai di-ri'r *Piazza*, a chwrdd unwaith eto ymhen dwy awr er mwyn tynnu'r llun hollbwysig. O'r diwedd, ar ôl derbyn ein tocynnau, ymlwybrodd pawb draw i'r theatr ac aros, yn gyffro i gyd, i glywed cordiau agoriadol Mamma Mia.

Ni chawsom ein siomi. Golygfa ar ôl golygfa, cân ar ôl cân, ymddiddanwyd bob yn un ohonom gan berfformiad bywiog a chofiadwy. Adleisiodd yr alawon bachog o amgylch y *Novello* yn ddiddiwedd a disgleiriodd yr actorion drwy gydol y campwaith. Mae'n siŵr y bydd nifer ohonom yn parhau i hymian canu 'Thank You for the Music' ac 'S.O.S', a nifer o ganeuon eraill dros y dyddiau i ddod! Yn wir, roedd y perfformiad mor fywiog fel yr ysgogwyd hyd yn oed Mrs Richards i'w thraed ac i ddawnsio fel 'Dancing Queen' yn ystod yr *encore*! Wrth i'r llen ddisgyn ar y sioe, a ninnau'n hanner gobeithio y byddai'r cast yn ail-ymddangos o rywle i ganu un gân arall, ail-lenwyd y tri bws, eu hanelu tua'r *Gorllewin* a chychwyn ar y daith hir tua thre. Toc wedi hanner awr wedi un ar ddeg, gydag ambell i lygedyn caeedig yn ein plith, dychwelodd y tri bws i'r union fan lle dechreuodd ein hantur ben bore gan gloi diwrnod gwerth chweil. Wrth gwrs, ni fyddai'r daith hon wedi mynd gam ymhellach na *Halfords* oni bai am waith trefnu ac ymrwymiad yr Adran Gerdd, ac ar ran y 150 ohonom, yng ngeiriau ABBA, 'diolch am y gerddoriaeth, diolch am ei chyflwyno i ni,' a diolch am ymweliad cofiadwy arall â'r West End.

*Adroddiad gan Mared Owen a Garmon Dyfri blwyddyn 13eg*

## Llwyddiant athletau

Llongyfarchiadau i Daisy Thompson Bl.9 am ennill Pencampwraig Cymru U15  
- athletau 800m ar y trac.